



Coeden  
Ddarllen  
Rhydychen




Rhagor o  
Dylluanod

# Y Jig-so

Roderick Hunt     Alex Brychto



**DRAKE**



Roedd hi'n bwrw glaw.

Roedd y plant wedi syrffedu.

Roedd Cad ac Anneena'n teimlo'n ddiflas,  
ac roedd tymer ddrwg ar Dids.

Roedd o eisiau chwarae â'r ffrisbi.




Cafodd Mam syniad.  
Roedd ganddi jig-so newydd.  
Rhoddodd y jig-so i'r plant.  
“Cewch chi wneud y jig-so yma,” meddai hi.  
“Mae o'n un da.”


Edrychodd pawb ar y jig-so.  
Llun o filwyr a bachgen oedd o.  
“Mae'r milwyr yn gofyn cwestiwn  
i'r bachgen,” meddai Mam.  
“Maen nhw eisiau gwybod ble mae ei dad.”



Roedd llawer o ddarnau yn y jig-so.  
Roedd y plant yn hoffi'r jig-so, ond  
roedd o'n un anodd i'w wneud.  
Yn fuan, roedd Dids wedi syrffedu.  
Dechreuodd chwarae â'r ffrisbi.




Yn y diwedd, roedd pawb wedi syrffedu.  
Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.  
Aeth yr hud â'r plant i mewn i  
antur newydd.




Aeth yr hud â'r plant yn  
ôl i'r hen amser.  
Aeth â nhw at dŷ mawr.  
Roedd plant yn chwarae  
gyda'u mam a'u tad.

Edrychodd Onw ar y plant.  
“Dyna ddillad rhyfedd maen nhw'n  
eu gwisgo,” meddai.  
“Maen nhw'n edrych fel y plant  
yn y jig-so,” meddai Anneena.




Siaradodd Onw efo'r bachgen a'r eneth.  
"Helo," meddai. "Onw ydw i.  
Dyma Cad, Dids ac Anneena."  
"Dyna enwau rhyfedd!" meddai'r eneth.  
"Ac rydach chi'n gwisgo dillad rhyfedd hefyd."

"Be ydi'ch enwau chi?" gofynnodd Dids.  
"Sioned ydw i," meddai'r eneth.  
"Edmwnd ydi f'enw i," meddai'r bachgen, "ac  
mae fy nhad yn ddyn pwysig iawn."  
"Dydi hynny'n poeni dim arnon ni," meddai Onw.



Doedd Edmwnd erioed wedi gweld ffrisbi o'r blaen.  
"Pam mae gynnoch chi blât?" gofynnodd.  
"Nid plât ydi o," meddai Onw.  
"Ffrisbi ydi o."  
Chwaraeodd pawb â'r ffrisbi.

Yn sydyn, gwaeddodd rhywun.  
Rhedodd dyn at dad Edmwnd.  
"Brysiwch! Rhaid ichi guddio!" meddai.  
"Ewch i mewn i'r tŷ.  
Mae'r milwyr yn dod!"



Rhedodd tad Edmwnd i mewn.  
“Brysiwch!” gwaeddodd Edmwnd.  
“Rhaid inni helpu ’nhad i guddio.  
Fiw i’r milwyr gael hyd iddo.”  
Rhedodd pawb i’r tŷ.



Daeth y milwyr at y tŷ.  
Curon nhw ar y drws.  
“Agorwch y drws inni!” gwaeddon nhw.  
“Agorwch y drws, neu byddwn yn ei  
fwrw i lawr.”





Rhedodd pawb i'r llyfrgell.  
Roedd ystafell gudd yn y llyfrgell.  
Roedd yr ystafell y tu cefn i silff lyfrau.  
Cuddiodd tad Edmwnd yn yr ystafell gudd.  
"Pob lwc, 'Nhad," meddai Edmwnd.




Gwthiodd mam Edmwnd y silff lyfrau yn ôl.  
"Peidiwch â sôn am yr ystafell gudd  
wrth y milwyr," meddai Sioned.  
"Os cân nhw hyd i 'nhad,  
byddan nhw'n ei ladd."



Rhedodd y milwyr i mewn i'r tŷ.  
Chwilion nhw am dad Edmwnd.  
“Dwedwch wrthon ni ble mae o!” gwaeddon nhw.  
Roedd y plant wedi dychryn, ond  
ddywedon nhw'r un gair.




Chwiliodd y milwyr ym mhobman, ond  
heb gael hyd i dad Edmwnd.  
Cafodd un o'r milwyr hyd i gleddyf.  
“Mae ei gleddyf yma,” meddai, “felly  
rhaid ei fod yma yn rhywle.”



Aeth y milwyr â phawb i ystafell.  
Roedd dynion yn eistedd wrth fwrdd mawr.  
Edrychon nhw ar y plant.  
Edrychodd un ohonyn nhw ar Onw.  
“Tyrd yma, fachgen bach,” meddai.

“Ble mae dy dad di?” gofynnodd y dyn.  
Roedd Onw wedi dychryn, ond  
ddywedodd o ddim byd.  
Ddywedodd 'run o'r plant 'run gair.



Roedd y dynion pwysig yn flin.  
“Mae eich tad chi’n cuddio,” gwaeddon nhw.  
“Dwedwch wrthon ni ble mae o.  
Os ydi o’n cuddio yn y tŷ yma,  
cawn ni hyd iddo’n fuan.”


Ddywedodd neb ddim byd, felly dechreuodd  
y milwyr godi’r llawr i fyny. Curon nhw’r  
waliau. Roedd mam Edmwnd wedi dychryn.  
“Efallai y byddan nhw’n cael hyd iddo,”  
meddai hi.



Roedd Edmwnd a Sioned wedi dychryn.  
Roedden nhw eisiau helpu eu tad.  
Yn sydyn, cafodd Dids syniad.  
“Efallai y medrai eich tad ddianc, petai'n  
gwisgo fel dynes,” meddai.



Cafodd Cad ac Anneena syniad hefyd.  
Lluchiodd Cad y ffrisbi at filwr.  
Chwarddodd y milwr.  
Doedd o erioed wedi gweld ffrisbi o'r blaen.  
“Dowch i weld hwn!” gwaeddodd.



Roedd y milwyr eisiau hoe fach, felly  
stopion nhw chwilio am dad Edmwnd.  
Aethon nhw i gyd allan i chwarae  
â'r ffrisbi.  
Yn fuan, roedd pawb yn chwerthin.




Roedd y milwyr yn hoffi'r ffrisbi.  
Chwaraeon nhw ag o am yn hir iawn.  
Yn sydyn, daeth hen wraig yno.  
Edrychai'n dlawd iawn.  
Roedd hi eisiau pres.




Stopiodd y milwyr chwarae  
â'r ffrisbi.

Gwaeddon nhw ar yr hen wraig.  
"I ffwrdd â chi!" gwaeddon nhw.  
"Does gynnw ni ddim pres."



Yn sydyn, edrychodd un o'r milwyr  
ar y tŷ.

Gwelodd rywun yn rhedeg i ffwrdd.  
"Edrychwch! Draw acw!" gwaeddodd.  
"Mae rhywun yn rhedeg i ffwrdd!"




Rhedodd y milwyr ar ôl y wraig.  
“Nid gwraig ydi hi! Dyn ydi o!”  
gwaeddon nhw.  
“Rhaid mai dyna’r dyn rydyn ni eisiau!  
Peidiwch â gadael iddo ddianc.”



Daliodd y milwyr y dyn a  
mynd ag o’n ôl i’r tŷ.  
“O na!” meddai Anneena.  
“Maen nhw wedi dal tad Edmwnd.  
Weithiodd ein syniad ni ddim.”






Roedd y milwyr yn meddwl eu bod nhw  
wedi dal tad Edmwnd.

Ond tric oedd o.

“Grrr!” meddai'r milwyr.

“Hwrê!” meddai'r plant.



Cafodd y plant hyd i hen ddillad.

“Felly tad Edmwnd oedd yr

**hen** wraig,” meddai Anneena.

“Dyna dric da,” chwarddodd pawb.

Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.



Roedd y jig-so wedi ei orffen.

Edrychodd Mam ar rywbeth yn y llun.

“Dyna beth rhyfedd,” meddai hi.

“Mae hwnna’n edrych yn debyg i ffrisbi.”

“Plât ydi o, mae’n rhaid,” meddai Dids.

# Y Jig-so



Coeden  
Ddarllen  
Rhydychen

Cam 7

Stori gan  
**Roderick Hunt**

Lluniau gan  
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan  
**Emily Huws**



## Tylluanod Cam 6

- 1 Yn yr Ardd
- 2 Onw a'r Cawr
- 3 Y Wibdaith
- 4 Gwlad y Deinosoriaid
- 5 Robin Hwd
- 6 Y Gist Drysorau

## Tylluanod Cam 7

- 7 Y Blaned Goch
- 8 Ar Goll yn y Jyngl
- 9 Twll yn y To
- 10 Colli Allwedd

## Rhagor o Dylluanod Cam 6

Braw yn y Nos  
Afalau Drwg  
Y Dywysoges a Allai Chwerthin  
Antur Nadolig  
Ras y Ceir Bach Gwylt  
Yr Allwedd Sgleiniog

## Rhagor o Dylluanod Cam 7

Y Draffordd  
Y Bwli  
Chwilio am Aur  
Antur Chineaid  
Antur Rufeinig  
Y Jig-so

Rhagor o  
Dylluanod

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1995  
① Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000  
② Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-309-1



9 790861 743093

ISBN 0 86 174309 1

**DRAKE**